

Digimap for Schools

Y Gorau o Brydain

Alan Parkinson

Adnodd addysgu Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 3



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r lluo o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

Teitl: Y Gorau o Brydain

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 3	Mae gan Brydain Fawr gyfoeth o safleoedd twristiaid ar gyfer ymwelwyr o adref a thramor. Mae'r gweithgaredd hwn yn cynnwys cynllunio llwybrau i amrywiaeth o ddiwyddiadau enwog. Darperir y rhain ar gardiau, a bydd gofyn i fyfyrwyr amlygu a chynllunio llwybr priodol gan ddefnyddio <i>Digimap for Schools</i> a darparu cyfarwyddiadau ysgrifenedig. Gellir rhoi'r rhain i yrrwr coets sy'n mynd â choets yn llawn twristiaid i un o'r digwyddiadau a lleoliadau hyn.	Lleoliad ym Mhrydain Fawr: bydd yn amrywio gan ddibynnu ar ardal cartref y myfyrwyr, gan fydd y teithiau yn mynd o leoliad cartref y myfyrwyr i amrywiaeth o leoliadau eraill. Bydd llawer o rwystrau'n cael eu hychwanegu yn ystod y cam cynllunio i brofi gwydnwch eu cynllunio.

Gwybodaeth	Cynllunio llwybrau/pellter a chyfeiriad/llythrennedd/lefelau closio/ychwanegu delweddau
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Twristiaeth/Trafnidiaeth/Sgiliau Map
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Dod o hyd i leoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau, mapiau a chynlluniau. Defnyddio cyfeiriadau grid chwe ffigur. Defnyddio mapiau, cynlluniau a delweddau o wahanol fathau a graddau, a TGCh i ddehongli a chyflwyno gwybodaeth leoliadol. Esbonio patrymau gofodol nodweddion, lleoedd ac amgylcheddau ar raddfeydd gwahanol.
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Canlyniadau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lleoedd a'r Amgylchedd: 1.13a, b, 2.14a

Nodyn i'r athro

Bydd faint o waith annibynnol y mae myfyrwyr yn gallu ymdopi ag ef yn dibynnu ar ba mor gyfarwydd y maen nhw â'r feddalwedd a phrofiad o ddefnyddio mapiau yn gyffredinol. Nid eu darllen gan fyfyrwyr ar eu pennau eu hunain yw bwriad y tasgau cam wrth gam, ond canllaw i chi, yr athro, i arddangos i'r dosbarth cyfan a/neu unigolion penodol, fel y bo'n briodol. Mae pob gweithgaredd yn cynnwys nifer o syniadau y gallwch eu teilwra a'u haddasu i fod yn addas i'ch dosbarth a'ch disgyblion.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Nod y pecyn yw:

- eich cynorthwyo chi i ddatblygu'r defnydd o *Digimap for Schools* yn yr ystafell ddosbarth ar draws yr ystod oedran uwchradd;
- datblygu sgiliau eich myfyrwyr i ddefnyddio'r gyfres lawn o offer sydd ar gael ar hyn o bryd;
- awgrymu rhai syniadau i ddatblygu mapio ar draws y cwricwlwm; ac
- arbed amser a rhoi ysbrydoliaeth!

Mae'r cyd-destunau ar gyfer y dysgu yn cynnwys daearyddiaeth 'ffisegol' a 'dynol', a bydd yn archwilio graddfeydd gwahanol mapiau o dir yr ysgol i leoliadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Cyflwyniad

Esboniwch i'r myfyrwyr eu bod nhw'n gweithio i gwmni coetsis, **DigiTours**, a'u swydd nhw yw briffio'r gyrrwr coets ar y trefniadau teithio ar gyfer taith sydd newydd gael ei threfnu gan grŵp ysgol. Bydd coets 52 sedd yn mynd â'r myfyrwyr ysgol i gyrchfan, y byddant yn cael gwybod ble yn fuan.

Neilltuwch y cyrchfannau i fyfyrwyr. Gallwch neilltuo rhywle gwahanol i bob myfyriwr, neu gallwch eu rhoi i fyfyrwyr mewn parau neu grwpiau bach, gan ddibynnu ar y mynediad at *Digimap for Schools*, y bydd ei angen ar gyfer y gweithgaredd. Gallwch neilltuo mis penodol i grwpiau fel dewis arall.

Dylen nhw ddechrau trwy weld pa le y maen nhw'n ymweld ag ef, a gweithio allan i ble y bydd angen iddyn nhw deithio. Gofynnwch i'r myfyrwyr a ydyn nhw wedi clywed am y lleoedd y maen nhw'n ymweld â nhw, i atgyfnerthu ychydig o wybodaeth gyffredinol am y DU, neu straeon personol y rheiny sydd wedi ymweld â'r lleoedd hyn o'r blaen.

Mae angen i fyfyrwyr drefnu eu llwybr i'r digwyddiad. Coets fydd yn teithio'r llwybr hwn, felly dylid mynd ar ffordd priodol.

Ar gyfer rhai digwyddiadau, bydd angen defnyddio mathau eraill o drafnidiaeth hefyd, ac efallai y bydd angen mwy o ymchwil. Efallai yr hoffech neilltuo'r lleoliadau hyn i'r myfyrwyr mwyaf priodol.

Gallech ddechrau trwy ddangos y lefelau closio gwahanol sy'n berthnasol i fapio arddull 'atlas ffordd'.

Efallai y bydd angen iddyn nhw glosio mwy i amlygu'r lleoliad gwirioneddol, neu nodweddion penodol a all fod ar hyd y daith, fel natur cyffyrdd. Dylid trefnu'r llwybr mor effeithlon â phosibl, i leihau costau tanwydd. Esboniwch fod meddalwedd cynllunio teithiau, a dyfeisiau 'llywio â lloeren', yn gwneud cyfrifiadau'n barhaus yn seiliedig ar bellter ac amser, i sicrhau bod y llwybr a awgrymir yn gywir ac mor fyr â phosibl, heb orfod cymryd dargyfeiriadau diangen.

Sylwer nad yw dyfeisiau llywio â lloeren yn anffaeledig, ac mae nifer o enghreifftiau o bobl yn eu dilyn nhw ac yn mynd i drafferth. Mae hyn yn un peth arall sydd yn ein hatgoffa pa mor bwysig yw hi i allu darllen map yr Arolwg Ordnans!

Prif weithgaredd

Dylai myfyrwyr amlygu manylion y llwybr fel cyfres o adrannau. Dylai'r rhain adlewyrchu'r cyfarwyddiadau a roddir gan ddyfais 'llywio â lloeren'.

Annog geiriau: rydym wedi rhoi rhai enghreifftiau o dermau a allai gael eu defnyddio ar ddiwedd yr

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

adran hon.

Mynd gam ymhellach

Efallai y byddwch eisiau cynnwys rhai cardiau 'DARGYFEIRIADAU' ar ryw bwynt yn ystod yr ymarfer i grwpiau sy'n gwneud cynnydd da, i weld a allan nhw oresi rhai problemau annisgwyl a allai ddigwydd wrth deithio i ddigwyddiad mor brysur a phoblogaidd.

Byddai'r gweithgaredd hwn yn addas hefyd i greu gweithgaredd 'Dirgel', yn seiliedig ar deulu yn teithio i ddigwyddiad, sy'n wynebu problemau ar y ffordd.

Gallech ddefnyddio ymadroddion fel y rhain wrth ysgrifennu eich llwybr...

- Gyrrwch ar hyd y llwybr wedi'i amlygu
- Mewn..... milltir, byddwch yn cyrraedd cylchfan
- Trowch i'r chwith
- Trowch i'r dde
- Gadewch y briffordd ar yr allanfa nesaf
- Ewch i mewn i'r twnnel....
- Dilynwch A... , B....., M..... am milltir
- Gogledd
- De
- Dwyrain
- Gorllewin

Digwyddiadau

Gallwch argraffu'r cardiau digwyddiadau isod, eu torri allan a'u rhoi i'r myfyrwyr.

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*



Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Cardiau digwyddiadau – dau ddigwyddiad ar gyfer pob mis trwy gydol y flwyddyn o fis Ionawr i fis Rhagfyr

Up Helly Aa http://www.uphellyaa.org/ Dydd Mawrth olaf mis Ionawr Lerwick, Ynysoedd Shetland	Dydd Calan – 1 Ionawr Dathliadau Hogmanay, Caeredin, Yr Alban
Ras Diwrnod Crempog, Dydd Mawrth Ynyd Olney, Swydd Northampton	Rygbîr Chwe Gwlad Wythnos gyntaf mis Chwefror Twickenham, Gogledd Llundain
Gŵyl Cheltenham Cwrs Rasio Cheltenham, Swydd Gloucester	Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi, 1 Mawrth, Glan y Dŵr Caerdydd
Ras Gychod y Prifysgolion Putney, Afon Tafwys, De-orllewin Llundain	Trooping the Colour, Gorymdaith y Gwarchodlu Ceffylau, Canol Llundain
The Maldon Mud Race, http://www.maldonmudrace.com Maldon, Essex	Parti Cystadleuaeth Eurovision Canol Dinas Efrog, Gogledd Swydd Efrog
Twrnaint tennis Wimbledon Wimbledon, Llundain	Pencampwriaeth Agored Dartiau y DU Stadiwm Reebok, Bolton
Y Proms Neuadd Frenhinol Albert, Llundain	Ras Rholio Caws Cooper's Hill, Swydd Gloucester
Carnifal Notting Hill http://www.thenottinghillcarnival.com/ Gŵyl Banc Mis Awst Notting Hill, Llundain	Gŵyl Falwnau Rhyngwladol Bryste http://www.bristolballoonfiesta.co.uk/ Ail wythnos mis Awst
Wythnos Ffasiwn Llundain Mis Medi – lleoliadau ar draws Canol Llundain	Ras 'Great North Run' BUPA® Newcastle
Ffair Goosey, Tavistock, Dyfnaint Yr ail ddydd Mercher ym mis Hydref	Pencampwriaethau Concrys y Byd Ashton ger Oundle, Swydd Northampton
Dathliadau Diwrnod Sant Andreas 30 Tachwedd Stirling, Yr Alban	Dathliadau Noson Tân Gwylt 5 Tachwedd Lewes, Dwyrain Sussex
Nofio Dydd Nadolig 25 Rhagfyr Traeth Brighton, Dwyrain Sussex	Nofio Dydd San Steffan 26 Rhagfyr Dinbych-y-pysgod, De Cymru

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Cardiau dargyfeiriadau (dewisol)

Gellir cynnwys y rhain neu eu rhoi i grwpiau os yw'n briodol, i weld pa mor wydn yw'r llwybrau. Efallai y gallwch feddwl am rai problemau trafndiaeth ychwanegol.

Mae'r ffordd yn cael ei rhwystro gan ddefaid wedi dianc, ac mae ar gau am sawl awr. Dewch o hyd i lwybr arall sy'n addas ar gyfer coets.	Mae tywydd gwael yn golygu bod oedi'n debygol ar unrhyw ffyrdd mewn ardaloedd bryniog oherwydd eira.
Mae gwaith ar bont yn golygu na fydd eich coets yn ffitio oddi tani – dewch o hyd i lwybr arall heb unrhyw bontydd isel.	Mae niwl yn arafu unrhyw gerbydau sydd ddim ar briffyrdd.